



POLISI ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

ADRAN 1 - GWYBODAETH SYLFAENOL AM DDARPARIAETH YCHWANEGOL YSGOL GYFUN Y STRADE

NODAU POLISI ADY YR YSGOL:

- darparu cwriciwlwm addas ar gyfer pob disgybl unigol a all fod ag anghenion addysgol arbennig ar hyd neu yn ystod ei yrfa ysgol
- sicrhau bod y disgybl yn derbyn profiad addysg mor eang a chytbwys ag sy'n bosibl, gan warchod ei hawl i'r mynediad llawnaf posib i'r cwriciwlwm Cenedlaethol
- darparu cynhaliaeth addas ar gyfer disgyblion sydd ag ADY
- canfod, ymateb i, monitro a chloriannu'n rheolaidd anghenion dysgu ychwanegol y disgyblion
- ymateb i'r ystod gofynion yn hylaw a hyblyg, gan baratoi cynlluniau gwaith sydd yn cydnabod pwysigrwydd gweithgareddau gwahaniaethol sydd yn rhoi cyfle i'r holl ddisgyblion lwyddo a chael eu hymestyn
- gwella sgiliau llythrennedd a rhifedd y digyblion
- gwella hunan ddelwedd a hybu hyder y disgyblion drwy ddefnyddio systemau canmol yr ysgol
- dyrannu a defnyddio adnoddau yn bwrpasol
- addysgu disgyblion ag ADY (yn cynnwys rhai â datganiad arnynt) ochr yn ochr a'u cyfoedion yn y brif ffrwd, lle bo hynny'n addas, a chan ystyried dymuniadau rhieni a'r disgybl
- sefydlu a meithrin partneriaeth a chydweithrediad sydd mor llawn â phosib rhwng disgyblion, eu rhieni, yr AALL, asiantaethau allanol, ysgolion cynradd teulu'r Strade ac Ysgol y Strade – er mwyn cynnal pob disgybl i'r eithaf
- cafnod ac asesu anghenion y disgybl mor fuan ag sy'n bosibl, gan ddilyn a gweithredu ar unrhyw wybodaeth gychwynnol ac ymgynghori ymlaen llaw â'r ysgol gynradd a fynychodd y disgybl, er mwyn sicrhau dilyniant yn y ddarpariaeth
- darparu rhaglen HMS ystyrlon a pharhaol ar gyfer llywodraethwyr yr ysgol, y pennaeth a'r tîm arwain, athrawon, a chynorthwyywyr dysgu i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth er mwyn darparu'r addysg orau bosibl i ddisgyblion ag ADY
- sicrhau fod yna gyfle cyfartal i'r disgyblion sydd ag ADY yn unol â Pholisi Cyfle Cyfartal yr Ysgol / Polisi Cydraddoldeb
- sefydlu a pharhau gyda'r egwyddor fod gan bob aelod o staff gyfrifoldeb dros blant ag ADY
- dangos parch tuag atynt fel unigolion a sicrhau amgylchedd gweithgar a sefydlog tu fewn a thu allan i'r dosbarth gan ddilyn prif nodau'r ysgol
- hyrwyddo medrau cymdeithasol a helpur disgyblion i gyrraedd safon dderbyniol o ran ymddygiad
- cynnwys y rhieni mewn partneriaeth gweithredol oddi fewn yr ysgol



- cynnwys y disgybl wrth asesu a gwneud penderfyniadau
- sicrhau fod yna drefniadau arbennig yn ystod arholiadau mewnol ac allanol ar gyfer y disgyblion sydd ag ADY, os yn berthnasol

Nodau / Targedau Penodol – gweler Cynllun Datblygu ADY

Noder:

- a. Rhaid peidio ag ystyried bod gan blant anhawster dysgu dim ond oherwydd bod yr iaith neu ffurf yr iaith a ddefnyddir yn y cartref yn whahanol i'r iaith y cânt eu haddysgu ynddi.
- b. Gall hyd y cyfnod a'r amser amrywio. Dros dro yn unig y bydd angen cynhaliath ar rai disgyblion.
- c. Daeth Rhan 2 o'r Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd i rym ym Medi 2002. Mae'r fframwaith ADY yn gwneud darpariaeth addysgol arbennig i ddiwallu ADY disgyblion unigol a bydd fframwaith gwahaniaethu ar sail anabledd yn rhoi amddisffyniad i ddisgyblion anabl drwy atal gwahaniathu yn eu herbyn ar sail anabledd ym myd addysg.

Enw'r llywodraethwr sy'n gyfrifol am ADY:

Mr Vincent Lloyd

Cyfrifoldeb y corff llywodraethu:

Mae gan y gyrff llywodraethu pob ysgol ddyletswyddau statudol pwysig tuag at ddisgyblion ag ADY.

Dylai'r corff llywodraethu, ynghyd â'r Pennaeth benderfynu ar bolisi ac ymdriniaeth gyffredinol yr ysgol o ran diwallu ADY y disgyblion hynny sy'n destun datganiad a'r rhai nad ydynt yn destun datganiad.

Rhaid iddynt sefydlu:

- trefniadau staffio
- cyllido priodol
- a goruchwylio gwaith yr ysgol

Rhaid i'r corff llywodraethu felly:

- wneud ei orau i sicrhau bod y ddarpariaeth angenrheidiol yn cael ei gwneud ar gyfer unrhyw ddisgybl sydd ag ADY
- sicrhau bod pawb yn debygol o ddysgu disgyblion sydd ag ADY yn ymwybodol o'u hanghenion
- sicrhau bod athrawon yn yr ysgol yn ymwybodol o bwysigrwydd canfod disgyblion sydd ag ADY a darparu ar eu cyfer
- ymgynghori â'r AALI a chyrrff llywodraethu ysgolion eraill er budd darpariaeth addysg arbennig yn yr ardal gyfan
- sicrhau bod disgyblion sydd ag ADY yn ymuno yng ngweithgareddau'r ysgol gyda'u cyfoedion
- adrodd yn flynyddol i rieni ar weithrediad polisi'r ysgol ar gyfer disgyblion ag ADY
- talu sylw i'r Cod Ymarfer wrth gyflawni eu dyletswyddau tuag at bob disgybl sydd ag ADY
- sicrhau yr hysbysir rhieni os bydd yr ysgol yn penderfynu gwneud darpariaeth ADY ar gyfer eu plentyn.



Gweithredu dyletswyddau'r Corff Llywodraethu:

- Y Corff Llywodraethu i benodi un person i fod yn gyfrifol dros fonitro darpariaeth ADY yr ysgol.
- Bydd y Llywodraethwr ADY yn cydweithio â'r Pennaeth a'r Uwch Dîm Arwain i weithredu'r polisi ac yn medru mynychu cyfarfodydd sy'n ymwneud ag ADY, a thrafod â'r pennaeth adran ADY sy'n cydlynu'r gweithgareddau, gydag aelodau staff, disgyblion a rhieni neu asiantaethau allanol. Bydd y pennaeth adran ADY yn trefnu cyfarfod ffurfiol unwaith bob tymor (neu yn ôl y galw) gyda'r Llywodraethwr sy'n gyfrifol am ADY.
- Y Corff Llywodraethu fod ynghlwm â'r broses o lunio ac adrodd yn ôl ar y polisi ac i gymeradwyo unrhyw newidiadau.

Cyfrifoldeb y Pennaeth:

- Y Pennaeth sy'n gyfrifol am y ddarpariaeth ar gyfer plant sydd ag ADY. Dylai roi gwybodaeth lawn i'r Corff Llywodraethu a chydweithio'n agos â'r Pennaeth Adran ADY yr ysgol.

Cyfrifoldeb yr Athro Pwnc, y Tiwtor Dosbarth, yr Uwch Dîm Arwain a Staff Cynnal yr ysgol gyfan:

- bod â rhan yn y gwaith o ddatblygu polisi ADY yr ysgol a'i weithredu
- bod yn hollol ymwybodol o drefniadau'r ysgol ar gyfer canfod ac asesu disgyblion sydd ag ADY a darparu ar eu cyfer
- bod yn barod i dderbyn HMS a mynychu cyrsiau a ddarperir gan yr ysgol, yr awdurdod neu asiantaeth arall

Y Cynorthwyr:


Nod Ysgol y Strade yw i addysgu disgyblion ag ADY (yn cynnwys rhai â datganiad arnynt) ochr yn ochr â'u cyfoedion yn y brif ffrwd, lle bo hynny'n addas. O ganlyniad mae rôl y Cynorthwyr yn hollol bwysig. Cynigir cynhaliadau yn y dosbarthiadau trwy dargedu disgyblion sydd ag ADY.

(Gweler Llawlyfr ADY yr Athro ynglŷn â chanllawiau ar gyfer Dysgu Cynhaliol / Rôl y Cynorthwyr)

Ar adegau mae disgyblion yn cael eu tynnu allan o ddosbarthiadau, dros dro yn unig, er mwyn canolbwyntio ar rai agweddau o'r gwaith mae'r disgyblion yn cael anhawster i'w deall, i wella sgiliau llythrennedd, i drafod cynnydd ac i helpu disgyblion i fagu hyder naill ai yn gyffredinol neu mewn maes penodol. Ceisir sicrhau ym mhob achos fod yna ddilyniant rhwng cwriciwlwm y dosbarth a'r gweithgareddau cynnal pan dynnir plant allan o'r dosbarth.

Defnydd o Rieni neu Wirfoddolwyr:

Croesawir rhieni / darpar rieni a gwirfoddolwyr i'n plith yn ddyddiol i gynnig cymorth gyda'n cynlluniau i wella sgiliau llythrennedd ein disgyblion.





Trefniadau ar gyfer sefyll profion ac arholiadau:

a. Arholiadau Mewnol:

Disgwylir i bob adran wneud trefniadau er mwyn cwrdd ag anghenion disgyblion ag ADY. Gall y trefniadau hyn olygu sicrhau:

- bod cwestiynau papurau arholiad, lle gosodir un papur wedi'u graddio'n ofalus er mwyn galluogi ymateb gan yr holl ystod gallu
- bod papurau gwahaniathol yn cael eu llunio ar gyfer haenau o allu mewn blwddyn
- bod rhestr o ddisgyblion a fydd angen cymorth wrth ddarllen papur yn cael ei pharatoi a'i throsglwyddo i'r Pennaeth Adran ADY. Trefnir wedyn bod y disgyblion hyn yn sefyll eu papurau mewn ystafell ar wahân dan oruchwyliaeth y CA neu aelod arall o'r staff lle cânt gymorth i ddarllen y papur.

Bydd y Pennaeth Adran ADY yn trafod hyn gyda'r rhieni a'r disgyblion ymlaen llaw er mwyn egluro'r drefn a lleddfu unrhyw ofidiau.

b. Arholiadau / Profion Allanol:

Bydd y Pennaeth Adran ADY yn cydweithio'n agos gyda'r Swyddog Arholiadau er mwyn sicrhau bod trefniadau arbennig ar gyfer disgyblion ADY lle bo'r angen.

Wrth wneud trefniadau arbennig ar gyfer arholiadau allanol Cyfnod Allweddol 4 a Chyfnod Allweddol 5 bydd yr ysgol yn dilyn cyfarwydych a geir yn y ddogfen: **“Addasiadau ar gyfer Ymgeiswyr ag Anableddau ac Anawsterau Addysg. Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol” (Joint Forum For GCSE and GCE)**

Oherwydd cymlethdodau'r gwahanol fathau o arholiad a geir rhaid i'r cydlynnydd a'r swyddog arholiadau gwblhau ffurflen 8 ar gyfer pob disgybl y gwneir cais drosto a'i throsglwyddo i'r bwrdd arholi neu'r byrddau arholi perthnasol cyn gynted ag y bo modd a heb fod ar ôl y dyddiadau a nodir yn y ddogfen uchod.

Y trefniadau derbyn ar gyfer disgyblion ag AAA:

Yn ystod y broses o lunio Datganiad mae gan rieni hawl i ddweud pa un o ysgolion yr AALI yr hoffent i'w plentyn fynychu, un ai ysgol prif ffrwd neu ysgol arbennig. Mae'n rhaid i'r AALI gytuno â'u dewis, cyn belled ag y bydd:

- Yr ysgol yn addas ar gyfer oedran, galluoedd, sgiliau ac AAA y plentyn
- Na fydd presenoldeb y plentyn yn effeithio ar addysg unrhyw blant eraill sydd eisioes yn yr ysgol
- Y bydd lleoli'r plentyn yn yr ysgol honno'n gwneud defnydd effeithlon o adnoddau'r AALI.

Os yw'r rhieni'n anghytuno â'r lleoliad neu unrhyw ran o'r broses o lunio'r Datganiad mae'n bosib iddynt gysylltu â'r Swyddog Enwebedig o fewn yr AALI am eglurhad, cysylltu â'r Gwasanaeth Datrys Anghytundeb, y Gwasanaeth Partneriaeth Rhieni Lleol ac apelio o bosib i'r Tribiwnlys ADY. Pan fo'r rhieni



a'r AALI yn gytûn, fel arfer eir ati i wneud y trefniadau derbyn rhwng rhieni a'r ysgol sy'n derbyn y plentyn. Yn y cyfarfod hwnnw, trafodir y manylion ynglŷn â derbyn y plentyn i'r ysgol honno.

Mae yna drefniadau penodol hefyd pan fo disgyblion sydd ag ADY yn trosglwyddo o'r ysgol gynradd i Ysgol Gyfun y Strade gyda'r nod o hwyluso'r broses:

- Y Pennaeth Adran ADY a'r Pennaeth Cynorthwyol yn ymweld â'r ysgolion cynradd i drafod unrhyw anawsterau sydd gan ddisgyblion blwyddyn 6 cyn iddynt gyrraedd
- Y Pennaeth Adran ADY a'r Pennaeth Cynorthwyol yn trafod anghenion disgyblion sydd ag ADY (GY a GY+) gyda'u rhieni naill ai ar y ffôn neu mewn cyfarfodydd ffurfiol
- Y Pennaeth Adran ADY yn mynychu cyfarfodydd adolygiad blynyddol disgyblion sydd â Datganiadau ym mlwyddyn 6 ac ym mlwyddyn 5 hefyd, os yn berthnasol.
- Y Pennaeth Adran ADY yn ystyried a yw'r ddarpariaeth sy'n gallu cael ei gynnig ar gyfer disgyblion sydd ag ADY yn Ysgol y Strade yn addas ar gyfer pob unigolyn – gall hyn olygu trafodaethau helaeth gyda staff Ysgol y Strade, staff yr ysgol gynradd, rhieni ac asiantaethau allanol.
- Trosglwyddir gwybodaeth angenrheidiol / taflen unigol am bob un disgybl ond gofynnir i athro Blwyddyn 6 neu CA yr ysgol gynradd lenwi taflen arall ar gyfer disgyblion sydd ag ADY a fydd o gymorth i'r Pennaeth Adran ADY wrth baratoi proffil unigol ohonynt ar gyfer Llawlyfr ADY yr Athro. **(Gweler y Taflenni Trosglwyddo Gwybodaeth yn y Llawlyfr ADY)** Yn naturiol disgwylir i'r ysgol gynradd drosglwyddo'r CAU / PUT ac unrhyw wybodaeth arall hefyd er mwyn sicrhau dilyniant yn y ddarpariaeth.

Cynhelir cyfarfodydd unwaith y tymor yn Ysgol y Strade ar gyfer Cydlwynwyr ADY yr ysgolion cynradd i drafod ac i weithio ar y cyd i wella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY ac i hwyluso'r pontio cynradd / uwchradd o safbwynt ADY.

Gweler y '**Polisi Pontio Cynradd / Uwchradd**' am fanylion ynglŷn â threfniadau eraill sy'n hwyluso'r broses o drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd, er enghraifft, ymweliadau yn ystod blwyddyn 5 a 6 i Ysgol Gyfun y Strade.

Cyfleusterau arbennig sy'n cynyddu neu'n hwyluso mynediad i'r ysgol gan ddisgyblion ADY.

Mae yna gyfleusterau arbennig ar gael yn Ysgol Gyfun y Strade ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dwys, hynny yw, adnoddau neu gyfleusterau arbenigol, er enghraifft lifft i sicrhau mynediad i'r holl ystafelloedd.

Crëwyd ystafell arbennig gyda thŷ bach ar gyfer disgyblion mewn cadair olwyn. Mae gwelliannau wedi cael ei wneud i sicrhau'r amodau cywir ar gyfer disgyblion sydd â nam ar eu golwg.

Mae ystafell ddysgu newydd gyda swyddfa ac ardal ar gyfer gweithio gyda grwpiau bach o ddisgyblion wedi agor ers mis Medi 2012. Mae hyn yn estyniad i'r Ganolfan lle gwneir gwaith gyda disgyblion ag ADY sy'n cynnwys yr Hafan ar gyfer disgyblion â phroblemau emosiynol. **(Gweler Llawlyfr Adran ADY ar gyfer mwy o wybodaeth am Yr Hafan)**



Mae unrhyw newidiadau a wneir yn yr ysgol wedi eu cynllunio'n strategol gan roi ystyriaeth briodol i'r Ddeddf ADY ac Anabledd 2001.





GWYBODAETH AM BOLISI'AU'R YSGOL AR GYFER CANFOD, ASESU A DARPARU AR GYFER POB DISGYBL AG ADY

Dyrannu adnoddau i ddisgyblion ag ADY:

i. Adnoddau Dynol:

- Pennaeth Adran ADY
- Athro â chyfrifoldeb am ddisgyblion â Datganiadau a Rheoli'r Hafan
- Athrawes Gynnal CA3
- Anogwr Dysgu CA4/5
- Cynorthwyr Cefnogi Dysgu
- Aelodau o'r Gwasanaeth Cyrhaeddiad a Chynhwysiad a Seicolegwyr Addysg

ii. Adnoddau ar ffurf deunyddiau

- Offer mawr e.e. teledu, cyfrifiaduron, gliniadruron a pheiriannau recordio ac offer penodol ar gyfer disgyblion sydd â nam golwg.
- Deunyddiau arbenigol e.e. cynllun darllen strwythuredig 'Dyfal Donc' a 'Catch Up' a rhaglenni cyfrifiadurol i wella sgiliau llythrennedd a rhifedd.
- Llyfrgell o lyfrau Cymraeg a Saesneg addas.
- Deunyddiau asesu diagnostig— Profion darllen a sillafu Glannau Menai, Diagnostic Reading Analysis (hodder Education) a Single Word Spelling Test (NFER).

Trefniadau canfod ac asesu a gweithdrefnau adolygu

Mae systemau cofnodi sydd eisioes ar gael yn cynnig modd i ddangos y camau bach o gynnydd a wneir gan blentyn ag ADY. Os yw athro pwnc yn poeni am gynnydd disgybl mae yn cyfeirio'r disgybl i'r Pennaeth Adran ADY. Mae yna daflenni ar gael iddynt gyfeirio disgyblion i sylw'r Pennaeth Adran ADY. Mae'n bosib hefyd i gael sgwrs gyda'r Pennaeth Adran ADY cyn cwblhau'r daflen. Gofynnir i'r athro / athrawes gadw cofnod manwl o gynnydd y disgybl ac fe dynnir sylw gweddill yr athrawon at yr anawsterau yn ystod y cyfarfodydd bugeiliol / cyfarfodydd athrawon / lloffion.

Cynhelir profion sgrinio gan y Sir cyn i'r disgyblion gyrraedd yr ysgol uwchradd a chaiff y wybodaeth berthnasol ei drosglwyddo i Ysgol y Strade. Yn yr un modd bydd canlyniadau Cyfnod Allweddol 2 ar gael. Hefyd bydd yr oed darllen ac oed sillafu Cymraeg a Saesneg yn cael eu trosglwyddo i Ysgol y Strade. O'r wybodaeth hon gellir targedu disgyblion ar gyfer y gwahanol gynlluniau sydd ar waith yn yr ysgol.

(Gweler 'Polisi Llythrennedd' yr ysgol)

Derbynnir cofnodion manwl o'r cyfnod addysg blaenorol. Ceir trafodaethau gyda rhieni / staff eraill / asiantaethau allanol os bydd yn berthnasol. **(Gweler y Taflenni Trosglwyddo Gwybodaeth yn y Llawlyfr ADY)**



Defnyddir system dracio cynnydd disgyblion yr ysgol gyfan i hwyluso gyda'r gwaith.

Pwy sy'n gyfrifol am ganfod ac asesu?

- Athrawon pwnc yn y man cychwyn
- Athro neu athrawes gynnal neu'r Pennaeth Adran ADY
- Gwasanaethau cefnogi allanol gan gynnwys seicolegydd addysg pan yw'n briodol

Dylai'r asesiad fod yn adlewyrchiad o'r plentyn cyfan, gan dynnu sylw at gryfderau yn ogystal ag anghenion, a dylai fod yn fan cychwyn ar gyfer datblygu cynllun addysg unigol i blentyn.

Bydd Ysgol y Strade yn derbyn disgyblion ag ADY sydd wedi'u canfod eisoes. Byddant wedi'u dynodi gan eu hysgol gynradd ac wedi cael help trwy:

- **Gweithredu gan yr Ysgol** neu
- **Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy** a bydd gan nifer fechan o
- **Ddatganiadau**

Rhaid cydnabod bod ADY plant ar gontinwrm ac y gallant, hefyd, newid dros amser; ac y gall y cyfnod o symud i ysgol newydd ac addasu iddi, sy'n gyfnod pwysig i bob disgybl, fod yn her neilltuol i ddisgybl sydd ag ADY. Bydd yna ymateb graddedig gan yr ysgol sy'n cydnabod bod disgyblion yn dysgu mewn gwahanol ffyrdd a'i bod yn bosibl bod ganddynt wahanol fathau neu lefelau o ADY.

Os yw'n hysbys fod gan disgybl ADY pan fydd yn cyrraedd yr ysgol, mae'r Pennaeth, y Pennaeth Adran ADY a chydweithwyr adrannol a bugeiliol yn ceisio:

- sicrhau bod arddulliau dysgu'r plentyn yn cael eu cymryd i ystyriaeth
- defnyddio'r wybodaeth oddi wrth yr ysgol gynradd y disgybl yn fan cychwyn ar gyfer datblygu cwricwlwm priodol ar gyfer y disgybl
- canfod sgiliau'r plentyn a chanolbwyntio sylw arnynt ac amlygu meysydd lle mae angen gweithredu'n fuan i gefnogi'r plentyn yn y dosbarth.
- sicrhau bod arsylwi ac asesu parhaus yn rhoi adborth rheolaidd i'r holl athrawon a'r rhieni am gyflawniadau a phrofiadau'r disgybl a bod canlyniadau'r asesu hwnnw yn sylfaen ar gyfer cynllunio'r camau nesaf yn addysg y disgybl
- sicrhau y gwneir y mwyaf o gyfleoedd anffurfiol priodol i'r disgybl ddangos yr hyn y mae'n ei wybod, ei ddeall ac yn gallu ei wneud trwy'r rhaglen fugeiliol
- cynnwys y disgybl yn y gwaith o gynllunio a chytuno ar dargedau i ddiwallu ei (h)anghenion
- cynnwys rhieni yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu ffordd o ddysgu ar y cyd rhwng y cartref a'r ysgol.



Gwneir ymdrech i sicrhau fod rheolaeth effeithiol, ethos ac amgylchedd dysgu'r ysgol, a'r trefniadau cwriciwlaid, bugeiliol a disgyblu yn helpu i atal rhai ADY rhag codi, a gwneud eraill yn llai.

Anogir yr athrawon pwnc i wahaniaethu'r gweithgareddau dysgu y tu mewn i fframwaith y cwriciwlwm uwchradd er mwyn helpu i ddiwallu anghenion dysgu'r disgyblion i gyd.

Ni ddylent gymryd yn ganiataol bod amawsterau dysgu disgyblion bob amser yn deillio'n llwyr, neu hyd yn oed yn bennaf, o broblemau'r person ifanc ei hunan.

Gall cyfraddau cynnydd disgyblion ddibynnu weithiau ar yr hyn a ddysgir iddynt, neu'r ffordd y cânt eu dysgu. Defnyddir y system fonitro mewnol i gadw golwg ar y sefyllfa.

Mae arferion yr ysgol ei hun yn gwneud gwahaniaeth – er da neu er drwg – rhaid cadw hyn mewn golwg.

Gellir rhoi sylw i wahaniaethu trwy ystyried natur ac amrywiaeth y gweithgareddau a'r gofynion deallusol sy'n cael eu rhoi ar y disgybl unigol.

Anogir yr athrawon pwnc i gynllunio mewn ffordd hyblyg er mwyn cydnabod anghenion y disgyblion i gyd fel unigolion a sicrhau dilyniant, perthnasedd a gwahaniaethu.

Mae yna bwyslais ar setio a ffrydio o flwyddyn 8 ymlaen sy'n helpu'r gwaith o gynllunio a gwahaniaethu'r cwriciwlwm. Mae hyn yn hollol ddibynnol hefyd ar staffio ac yn gallu amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Mae yna ymdrech arbennig i sicrhau fod y systemau yn addas ar gyfer y disgyblion sydd ag ADY gydag ystyriaeth i leoli disgyblion mewn setiau fesul pwnc pan yn bosibl.

Trwy rannu'r disgyblion i setiau neu ffrydiau, gellir amrywio cynnwys y cwriciwlwm neu gyflymdra'r wers i adlewyrchu anghenion y grŵp peneodol a ddysgir.

Anghenion a Gofynion Plant (Cod Ymarfer AAA Cymru)


Gall anghenion a gofynion plant ddisgyn i o leiaf un o **bedwar maes** a bydd gan lawer o blant anghenion cydgysylltiedig. Dylid talu sylw i effaith y cyfuniadau hyn ar allu'r plentyn i weithredu, dysgu a llwyddo.

Ceir anghenion yn y meysydd canlynol:

- **Cyfathrebu a Rhyngweithio**
- **Gwybyddiaeth a Dysgu**
- **Datblygiad Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol**
- **Anghenion Synhwyrdd a/neu Gorfforol**

Mae angen ystyried **Cyflyrau Meddygol** hefyd os ydynt yn amharu ar fynediad y disgybl i'r cwriciwlwm

Mae Ysgol Gyfun y Strade yn gweithredu yn ôl gofynion y Cod Ymarfer AAA Cymru. Dilynir, yn fras, y drefn canlynol:





Canfod, Asesu a Darparu:

- Ceglir tystiolaeth o arsylwadau ac asesiadau athrawon
- Edrychir ar eu perfformiad yn erbyn y disgrifiadau o lefelau y Cwriciwlwm Cenedlaethol
- Defnyddir dulliau sgrinio ac asesu safonol
- Bydd yr ysgol yn agored a pharod eu hymateb pan fo rhieni yn mynegi pryder
- Bydd yr ysgol yn ymateb i bryder y disgybl ei hun
- Bydd yr ysgol yn ymateb i bryderon gan weithwyr proffesiynol eraill
- Os nad yw cynnydd yn cael ei wneud gan y disgybl er ei fod wedi cael cyfleoedd dysgu gwahaniaethol yna bydd angen y camau sy'n dilyn:

Gweithredu gan yr Ysgol:

Os yn parhau i wneud dim cynnydd mewn meysydd penodol dros gyfnod hir / yn parhau i weithio ar lefelau'r Cwriciwlwm Cenedlaethol sy'n sylweddol is na'r lefel a ddisgwyllir gan disgyblion o oedran tebyg ac yn y blaen bydd y disgybl yn trosglwyddo i'r cam nesaf:

Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy:

Os na welir cynnydd y cam nesaf yw gwneud:

Asesiad Statudol o Anghenion Addysgol Arbennig:

Gall hyn arwain at ddisgybl i fod yn:

Destun Datganiad AAA:

(Gweler Pennod 6 yn y Cod Ymarfer am fanylion pellach.)

Yn ysgol y Strade mae yna ddogfen sy'n cynnwys enwau'r disgyblion sydd ag ADY yn cael ei throsglwyddo i bob athro. Ers mis Medi 2012 mae hon yn ddogfen weithredol sy'n cynnwys gwybodaeth am ADY y disgyblion ac unrhyw fanylion arwyddocaol arall. **(Gweler Llawlyfr ADY)**

Gofynnir i rieni y disgyblion sydd ag ADY wneud apwyntiad gyda'r Pennaeth Adran ADY neu'r Athrawes Gynnal yn ystod y noson rieni i drafod y cynnydd a'r ffordd ymlaen. Bydd cyfarfodydd eraill yn cael eu trefnu yn ystod y flwyddyn ar gyfer adolygu'r ddatganiad i'r disgyblion perthnasol.

Y Pennaeth Adran ADY fydd yn hysbysu'r rhieni pan adnabyddir ADY.

Y Pennaeth Adran ADY fydd yn cysylltu ag asiantaethau allanol pan fo angen.

Bydd y Pennaeth Adran ADY / Athrawes Gynnal yn tafod y PUT (proffil un tudalen) gyda'r disgyblion a'u rhieni pan yn briodol.

Gnweir defnydd o'r 'Llyfr Cyswllt' fel deialog rhwng y cartref a'r ysgol oherwydd ei fod yn ddull hawdd a chyfleus i gyfleu gwybodaeth yn gyflym. Mae'r 'Llyfr Cyswllt' hefyd yn sicrhau fod gwybodaeth yn cael ei drosglwyddo i eraill, er enghraifft, y Tiwtor Dosbarth, Athrawon Pwnc ac aelodau o'r Uwch Dîm Arwain yn ystod y broses o fonitro'r llyfrau cyswllt.



Trefniadau ar gyfer darparu mynediad i ddisgyblion ag ADY i gwriciwlwm cytbwys ac eang, gan gynnwys y Cwriciwlwm Cenedlaethol:

Mae holl ddisgyblion Ysgol Gyfun y Strade yn derbyn mynediad i'r Cwriciwlwm Cenedlaethol ac er mwyn galluogi hyn mae yna athrawon cynnal / cynorthwywyr cefnogi dysgu ar gael ar gyfer y disgyblion sy'n cael anhawster mewn rhai pynciau.

Disgwylir i gynlluniau gwaith yr adrannau ddangos yn glir sut maent yn darparu ar gyfer plant ADY. Mae'r Cwriciwlwm Cenedlaethol yn cael ei wahaniaethu i ateb gofynion pob unigolyn. Gofynnir i'r athrawon osod targedau tymor byr sy'n gyraeddadwy, a gyda chefnogaeth maent yn llwyddo i baratoi a chyflwyno cwriciwlwm priodol.

Sut mae plant ag ADY yn cael eu hintegreiddio o fewn yr ysgol gyfan:

Integreiddio Lleoliadol:

Addysgir disgyblion ag ADY ochr yn ochr a'u cyfoedion yn y brif ffrwd. Defnyddir Y Ganolfan / C5 ar gyfer disgyblion ag ADY sy'n disgyn i unrhyw un o'r pedwar maes sy'n golygu amrywiaeth mawr iawn o ran gallu.

Integreiddio Cymdeithasol:

Mae holl ddisgyblion Ysgol y Strade yn cael cyfleoedd addas ar gyfer sicrhau eu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol. Bydd cyfleoedd iddynt integreiddio yn ystod ymweliadau a thripiâu ysgol, cyrsiau preswyl, eisteddfod a mabolgampau'r ysgol a holl weithgareddau allgyrsiol yn ystod y dydd a thu allan i oriau'r ysgol. Mae yna lu o weithgareddau ychwanegol yn cael eu cynnig rhwng 3.30 a 4.30 y prynhawn sy'n addas ar gyfer disgyblion o bob gallu.


Integreiddio Swyddogaethol:

Mynediad i'r un cwriciwlwm â phlant y brif ffrwd. Integreiddir y disgyblion gyda chefnogaeth, os yn briodol.

Meini prawf ar gyfer gwerthuso llwyddiant polisi ADY yr ysgol:

Rhaid i adroddiad blynyddol y corff llywodraethu gynnwys gwybodaeth:

- am lwyddiant y polisi ADY
- am newidiadau sylweddol yn y polisi
- am unrhyw ymgynghori â'r AALI, yr Awdurdod Cyllido ac ysgolion eraill
- am sut y dyranwyd adnoddau ar gyfer ac ymhlith plant ag ADY dros y flwyddyn





Wrth gyflwyno sylwadau am llwyddiant y polisi, bydd yr adroddiad yn dangos effeithiolrwydd systemau'r ysgol ar gyfer:

- canfod anghenion
- asesu
- darparu
- arolygu a chadw cofnodion
- y defnydd o wasanaethau cynnal ac asiantaethau allanol

Anelir at osod targedau penodol y gellir mesur llwyddiant agweddau penodol ar y polisi yn eu herbyn. Gellir wedyn cyflwyno adroddiad ar llwyddiant y polisi yng noleuni'r targedau hyn yn yr adroddiad blynyddol i'r rhieni.

Monitro'r safonau a gyrhaeddir trwy:

- **restru ar ddechrau pob tymor y nifer o ddisgyblion sydd ag ADY**, gan gynnwys y rhai sydd â datganiadau gan edrych ar y lefel a'r math o gefnogaeth a roddwyd iddynt i weld a wnaethpwyd cynnydd ar y lefel a'r math o gefnogaeth a roddwyd iddynt i weld a wnaethpwyd cynnydd ac i weithredu yn ôl yr angen, gan newid unrhyw weithdrefn anghymwys.
- **archwilio gwaith disgyblion dros Cyfnod Allweddol**, er enghraifft, o flwyddyn 7-9 gan sicrhau bod y safonau'n berthnasol i'r targedau cyrhaeddiad ar gyfer pynciau'r Cwriciwlwm Cenedlaethol, lle bo hyn yn gymwys. Dylid hefyd edrych a yw'r lefelau cyrhaeddiad presennol yn berthnasol i'r lefelau cyrhaeddiad a gofnodwyd ar adegau blaenorol, ac a ydynt yn arddangos cynnydd. Hefyd, a yw'r samplau yn dangos cynnydd yn eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau?

Noder: Gall safonau cyrhaeddiad rhai disgyblion ADY fod lawer yn is na'r hyn sy'n arferol ar gyfer eu hoed, er y gallant gynrychioli llwyddiant sylweddol yn achos yr unigolyn dan sylw.

- **adolygu pob Proffil Un Tudalen a Datganiad** ac addasu'r rhaglen lle bo angen gan edrych ar engreifftiau o waith y disgybl. Bydd y CADY yn dosbarthu taflenni adolygu ar gyfer pob disgybl sydd ag ADY gan ofyn am adborth wrth athrawon y pynciau craidd ac adborth wrth yr holl athrawon pwnc ar gyfer adolygu datganiadau.
- **olrhain tangyflawni gan osod targedau pynciol / ymdygiadol newydd i'r disgybl.** Gwneir hyn yn sgil pob adroddiad neu gofnod o dangyflawni. Bydd y Pennaeth Safonau a'r Cydlynnydd yn ystyried sylwadau'r athrawon ochr yn ochr â'r PUT. Hysbysir rhieni o ddiffyg cynnydd a gosodir targedau diwygiedig.
- **asesu agwedd y disgybl tuag at waith a'i ddatblygiad personol**, ac a yw ef neu hi yn teimlo'n bositif. Angen ystyried yr hyn y mae'n dweud yn y cyfweiliadau gyda'r Tiwtor Personol a geir ddwy waith y flwyddyn ynghyd â'i gyfraniad at fywyd ysgol a sgiliau cymdeithasol a phersonol.
- **Gofyn am farn rhieni** – ar lafar yn ystod nosweithiau rhieni ac adolygiadau.
- **arolygu presenoldeb y disgybl** mewn gwersi ac yn yr ysgol er mwyn asesu'i agwedd a'i ddedwyddwch: bydd y CADY yn gwneud hyn gan ymgynghori â Phennaeth Safonau.



- **Arsylwi gwersi** er mwyn ffurfio barn am y canlynol:
 - disgwyliadau athrawon tuag at ddisgyblion ADY
 - a yw'r gwaith a'r technegau dysgu yn addas ac yn wahaniaethol
 - a yw'r disgyblion yn deall diben y dysgu
 - a ydynt yn arddangos cynnydd llafar ac ymarferol
 - a ydynt yn cofio dod ag adnoddau
 - ac i gofnodi unrhyw achos o arfer dda lle mae disgybl wedi llwyddo, er mwyn cymhwyso'r wybodaeth at unigolyn arall
- **edrych ar y ddarpariaeth staffio**, ystafelloedd ac adnoddau yn flynyddol yn ôl anghenion, gan edrych ar sut y defnyddir unrhyw staff cynnal
- **penderfynu ar HMS priodol** ar gyfer y flwyddyn olynol.





TREFNIADAU AR GYFER YSTYRIED CWYNION / PRYDERON AM DDARPARIAETH ADDYSGOL ARBENNIG O FEWN YR YSGOL / CONSYRN AM UNIGOYN:

Rhieni:

Os oes rhiant yn cysylltu â'r ysgol ynglŷn â darpariaeth addysgol arbennig o fewn yr ysgol – trwy ddefnyddio llyfr cyswllt y disgybl neu trwy gysylltu â'r athro pwnc / tiwtor dosbarth / pennaeth safonau / dirprwy neu'r pennaeth:

1. Bydd y pryder yn cael ei drosglwyddo i'r CADY
2. Caiff neges ei drosglwyddo i'r rhiant i ddweud y byddant yn derbyn ymateb mewn tua wythnos, er mwyn galluogi'r staff sydd ynghlwm â'r broblem wneud ymholiadau.
3. Cofnodir hyn ar daflen wybodaeth, gan nodi'r dyddiad, y person y derbyniodd y neges, y dyddiad a roddwyd ar gyfer ymateb a'r casgliad y daethpwyd iddo. Bydd angen sicrhau fod aelod o'r Tîm Arwain ac unrhyw staff sy'n berthnasol yn darllen y daflen wybodaeth a'r harwyddo.
4. Anfonir llythyr neu trefnir cyfarfod ymhen yr wythnos gyda'r rhieni (a'r disgybl os yn berthnasol) gan nodi ymhle a gyda phwy. Fel arfer y CADY, y Pennaeth Safonau neu aelod o'r Tîm Arwain fydd yn bresennol.
5. Ceir disgrifiad cryno ysgrifenedig o'r hyn a benderfynwyd ar daflen wybodaeth. Caiff ei harwyddo gan y bobl perthnasol.
6. Yna gellir cadw cofnod o'r penderfyniad hwn gyda dogfenaeth y plentyn yn y ffeil ADY a hefyd yn ffeil y plentyn yn swyddfa y Pennaeth Safonau.

Dylid cyfeirio cwynion / pryderon sy'n ymwneud â datganiad o ADY plentyn ar yr AALI.

Dylid sicrhau hefyd fod rhieni yn ymwybodol o'r Tribiwnlys ADY a sefydlwyd gan Ddeddf Addysg 1996.

Bydd y Tribiwnlys yn ystyried cwynion yn erbyn penderfyniadau AALI ynglŷn â ADY plentyn pan na fedr y rhieni ddod i gytundeb â'r AALI ar y mater. (Gweler 'Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig (Terfynau Amser) 2001 am wybodaeth bellach).

Mewn achosion arbennig gall rhiant hefyd gylltu â'r Llywodraethwr sydd wedi cael ei enwi i fod yn gyfrifol am ADY o fewn yr ysgol. Gellir anfon llythyr i'r ysgol a gaiff ei basio ymlaen i'r Llywodraethwr ADY.

Yn ychwanegol gweler gopi o'r Polisi Ysgol Gyfan ynglŷn â threfniadau ar gyfer cwynion / pryderon yn gyffredinol.

Disgyblion:

Mae croeso i ddisgyblion fynegi eu teimladau yn gwrtais, yn onest ac yn agored os oes ganddynt gwyn neu bryderon. Gallant ddweud wrth eu tiwtor personol, neu athro pwnc, wrth y CADY, Pennaeth Safonau neu Tiwtor Dosbarth neu wrth unrhyw athro / cynorthwydd y mae'n teimlo'n gyfforddus yn ei gwmni.

Bydd y cyfan yn cael ei gofnodi: y pryder, y camau gweithredu a'r canlyniad.

Nid da lle gellir awell



GWYBODAETH AM BOLISIAU STAFFIO'R YSGOL A PHARTNERIAETH GYDA CHYRFF Y TU HWNT I'R YSGOL

Trefniadau Hyfforddiant Mewn Swydd ADY yr ysgol:

Dilynir ystyriaethau cyffredinol yr ysgol ar gyfer hyfforddi staff.

Cynllunir rhaglen o hyfforddiant ar gyfer datblygiad proffesiynol staff er mwyn eu cynorthwyo i weithio'n effeithiol gyda phlant ag ADY.

Cynigir hyfforddiant addas gan y Sir ar gyfer y CADY er mwyn:

- diwallu gofynion y Cod Ymarfer / Rhan 2 o'r Ddeddf AAA ar sail Anabled
- darparu hyfforddiant yn yr ysgol i gydweithwyr

Bydd y CADY yn cydweithio gydag Athro / Athrawes Ymgynghorol ADY y clwstwr ac yn mynychu'r cyfarfodydd ar gyfer Cydlwynwyr ADY Ysgolion Uwchradd y Sir yn rheolaidd.

Bydd angen annog pob aelod o staff i ymestyn eu harbenigedd i gynnwys plant ag ADY a'u caniatáu i fynychu cyrsiau addas a drefnir gan y Sir ar gyfer y gwahanol bynciau.

Trefnir hyfforddiant ar gyfer y Cynorthwywyr Cynnal Dysgu gan y Sir a'r CADY

Trefnir cyfarfodydd unwaith y tymor ar gyfer CADY yr ysgolion cynradd yn Ysgol y Strade.

Diweddarwyd:	
Derbyniwyd gan y Corff Llywodraethol:	
Llofnod y Cadeirydd:	

